**PWYLLGOR PERSONÉL**

**23 Mehefin 2021**

Yn Bresennol: Mrs J James (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair ar gyfer eitemau 1, 8, 9 a 10)
Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd S Yelland.

[Roedd Mr GA Jones yn cael anhawster i gysylltu â'r cyfarfod ac ymunodd drwy gyswllt ffôn cyn ystyried yr Adroddiad ar Reoli AD (*gweler Cofnod 8*)].

(Cyfarfod rhithiol: 2.00p.m. – 3.30p.m.)

**1. Ethol Cadeirydd**
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i ethol y Cynghorydd M James yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Yna cymerodd y Cynghorydd James y Gadair a llywyddu eitemau 2-7 pan fu'n rhaid iddo adael y cyfarfod.]*

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i ethol Mrs J James yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans a'r Cynghorydd A Wilcox.

**4. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**5. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2020, 13 Ionawr 2021 ac ar 3 Mawrth 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2020, 13 Ionawr 2021 ac ar 3 Mawrth 2021.

**6. Materion yn codi**
a) Polisi Cyffuriau ac Alcohol a'r Cylch Gorchwyl diwygiedig (Cofnodion 4 a 5 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2020)
Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar yr uchod, gan fod y ddau i gael eu dosbarthu i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf. Atebodd y Prif

Weithredwr, er bod y Rheolwr AD wedi paratoi'r adroddiadau, ei fod wedi eu dileu o'r agenda. O ran y Cylch Gorchwyl, roedd wedi nodi bod y newidiadau a gynigiwyd wedi cynnwys eitemau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol ar hyn o bryd ac felly roedd angen trafodaeth ehangach cyn y gellid bwrw ymlaen â'r eitem hon. O ran y Polisi Cyffuriau ac Alcohol, o dan y trefniadau dirprwyo a gytunwyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod fis Medi 2020, roedd diwygiadau i'r polisïau presennol nad oedd yn newid y nodau cyffredinol, na'r amcanion na'r cyfeiriad o wneud penderfyniadau, ond angen cymeradwyaeth Tîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod, yn hytrach na'r Pwyllgor Personél.

Awgrymodd yr Aelodau bod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Personél a'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn cyfarfod â'r swyddogion i drafod cylch gorchwyl y ddau Bwyllgor a **CHYTUNWYD** y byddai hyn yn cael ei drefnu.

b) Polisi Diogelwch Tân (Cofnod 6, 18 Tachwedd 2020)
Dywedodd y Rheolwr AD bod y templed Polisi Diogelwch Tân wedi'i weithredu ar draws pob safle yr Awdurdod, a bod archwiliadau diogelwch tân wedi'u cynnal yn unol â'r gweithdrefnau safonol.

**NODWYD.**

c) Gwasanaeth Clust i Wrando (Cofnod 3, 3 Mawrth 2021)
Gofynnodd yr Aelodau faint o alw oedd wedi bod am y gwasanaeth ers ei gyflwyno. Fodd bynnag, dywedodd yr Aelodau hynny oedd wedi gwirfoddoli ar y gwasanaeth ac yn aelodau o'r Pwyllgor nad oeddent wedi derbyn unrhyw gyswllt gan staff.

**NODWYD.**

*[Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn mynd i newid trefn yr agenda i gymryd eitem 7 (Strategaeth Pobl) yn gyntaf.]*

**7. Strategaeth Pobl 2021/23**

Cyflwynodd y Rheolwr AD y Strategaeth ddrafft, a ddatblygwyd yn dilyn trafodaethau â rheolwyr ac mewn ymateb i'r Arolwg Barn Gweithwyr, a gofynnodd am adborth yr Aelodau. Roedd y Strategaeth yn nodi chwe maes blaenoriaeth, a rhoddwyd amcanion, camau gweithredu a mesurau llwyddiant ar gyfer pob un. Nodwyd yn y cyfarfod bod gwall argraffyddol ar dudalen gyntaf y Strategaeth lle dylai'r cyfeiriad at gyfnod y Cynllun hefyd fod wedi darllen 2021 - 23.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r Strategaeth. Fodd bynnag, oherwydd uchelgais y strategaeth, mynegwyd peth pryder ynghylch yr adnoddau fyddai eu hangen i gyflawni'r nodau, ac awgrymwyd y gallai rhywfaint o ymwybyddiaeth o flaenoriaethu fod yn ddefnyddiol. Hefyd cyfeiriwyd at y safonau ymddygiad a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan Gyngor Sir Penfro (CSP) a gofynnwyd a allai'r Awdurdod ddysgu unrhyw beth o'r safonau hyn. Awgrymwyd hefyd y dylid cyfeirio mwy at yr adolygiad parhaus o'r polisïau gan fod hyn yn dasg enfawr.

Atebodd y Rheolwr AD y byddai'r Strategaeth yn cael ei hategu gan gynllun gweithredol, a bod Tîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod i ystyried drafft o'r cynllun hwn cyn bo hir. Roedd yn cydnabod y gallai fod angen rhai adnoddau allanol i gyflawni rhai o'r elfennau, ond blaenoriaeth allweddol oedd datblygu rheolwyr i'w galluogi i gynnig mwy o gefnogaeth i'w timau. Dywedodd y Rheolwr AD y byddai'n ddiddorol gweld safonau ymddygiad CSP, ond roedd gwaith eisoes wedi dechrau ar ddatblygu gwerthoedd craidd yr Awdurdod, a'r gwerthoedd hynny fyddai'n llywio ymddygiad y staff.

Gan ddiolch i'r Rheolwr am ei ymateb, awgrymwyd y gallai'r adran olaf "Ein hymrwymiad i'r Awdurdod" fod yn fwy defnyddiol ar ddechrau'r ddogfen, gan gyfeirio hefyd at rôl a chyfrifoldebau'r rheolwyr llinell.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod yn cydnabod bod gwaith AD yn treiddio drwy'r Awdurdod cyfan, ond bod galwadau lawer yn cystadlu am adnoddau ychwanegol.

**NODWYD.**

*[Cyflwynodd y Cadeirydd, y Cynghorydd M James, ei ymddiheuriadau yr adeg hon a chymerodd y Dirprwy Gadeirydd y Gadair].*

**8. Adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol**

Roedd adroddiad y Rheolwr AD yn rhoi gwybodaeth am nifer y staff, recriwtio, lles gweithwyr, y gweithrediadau a'r prosiectau AD oedd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Dywedwyd y byddai ystadegau absenoldeb ar gael ar ôl sefydlu system AD Cezanne newydd yr Awdurdod a gyflwynwyd yn ddiweddar.

Nododd yr Aelodau yr anawsterau recriwtio a glustnodwyd yn yr adroddiad, a gofyn a oedd hyn yn rhan o batrwm. Atebodd y Rheolwr AD y gellid rhoi mwy o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf, ond dywedodd bod Sir Benfro yn dioddef o farchnad recriwtio anodd oherwydd proffil oedran y boblogaeth a diffyg sgiliau mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth o ddulliau wedi'u defnyddio, gan gynnwys recriwtio ar lefel is

a rhoi llwybr gyrfa i'r rhai a benodir, ac roedd mentrau eraill megis rhaglenni i hyfforddeion a graddedigion yn cael eu hystyried i fynd i'r afael â'r mater hwn.

**NODWYD.**

**9. Cynllun Kick-Start y Llywodraeth**

Dywedwyd bod yr Awdurdod, fis Medi 2020, mewn partneriaeth â Pharciau Cenedlaethol eraill y DU, wedi gwneud cais am arian o dan Gynllun Kick-Start y Llywodraeth. Roedd Rheolwyr Recriwtio wedi bod yn rhan o greu lleoliadau ystyrlon, gan arwain at gais llwyddiannus am chwe swydd, a chyhoeddwyd hysbysebion recriwtio fis Ebrill 2021. Fel rhan o'r cais am gyllid, byddai'r Awdurdod hefyd yn datblygu ac yn cyflwyno Rhaglen Gyflogadwyedd i wella sgiliau cyflogaeth.

Yn y cyfarfod, dywedodd y Rheolwr AD nad oedd y Cynllun wedi llwyddo yn ôl y disgwyl gan ei bod yn ofynnol i'r rhai oedd ar y rhaglen fod yn derbyn Credyd Cynhwysol. Roedd y cynllun presennol ar agor tan fis Rhagfyr, ac roedd yr Awdurdod wedi parhau i weithio gyda'r ganolfan waith i wella'r modd y mae'r cyfleoedd yn cael eu marchnata. Cadarnhaodd bod y cyllid ar gyfer lleoliad gwaith rhan-amser am 6 mis, ac nad oedd unrhyw ymrwymiad ar ran yr Awdurdod i gynnig cyflogaeth ar ôl y 6 mis hwnnw. Fodd bynnag, roedd profiad o gynlluniau prentisiaeth blaenorol a gynhaliwyd gan yr Awdurdod wedi awgrymu bod y sgiliau a ddysgwyd wedi galluogi'r rhai a recriwtiwyd i ymgeisio'n llwyddiannus am swyddi a hysbysebwyd.

Gan gyfeirio at yr eitem flaenorol ynglŷn ag anawsterau recriwtio, awgrymwyd y gallai trafodaethau gyda Choleg Sir Benfro neu Ymddiriedolaeth y Tywysog fod yn fuddiol, gan y byddent yn awyddus i wybod yn union beth yw anghenion y cyflogwyr lleol. Atebodd y Prif Weithredwr bod y mater wedi'i godi mewn cyfarfod diweddar o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ac y byddai'n destun trafodaeth yn y dyfodol agos.

**NODWYD.**

**10. Polisi Bwlio ac Aflonyddu**

Dywedwyd bod hwn yn bolisi newydd fyddai'n cyfuno'r cyfeiriadau a wneir mewn polisïau AD eraill, ac yn gosod y naws ar gyfer y diwylliant o urddas a pharch a ddatblygir gan yr Awdurdod. Roedd y polisi yn nodi cyfrifoldebau'r staff a'r rheolwyr ac yn amlinellu'r gweithdrefnau cwyno – y rhai ffurfiol a'r rhai anffurfiol - a'r gefnogaeth oedd ar gael. Dywedodd y Rheolwr AD y byddai'n ychwanegu cyfeiriadau pellach at yr adnoddau sydd ar gael i unigolion. Fel rhan o weithredu'r polisi, byddai'r Awdurdod

yn rhoi hyfforddiant i'r rheolwyr drwy blatfform e-ddysgu newydd, yn ogystal â chynnal sesiynau wyneb yn wyneb. Roedd y ddogfen wedi'i dosbarthu ymhlith y staff am sylwadau, a fforwm Cynrychiolwyr Staff yr Awdurdod oedd wedi codi'r angen am y cyfryw bolisi.

Roedd yr Aelodau wedi gwneud nifer o fân sylwadau manwl, a chytunodd y Rheolwr AD i ymgorffori'r rhain yn y ddogfen derfynol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Polisi Bwlio ac Aflonyddu cyn belled â bod y mân ddiwygiadau a godwyd yn y cyfarfod yn cael eu cynnwys.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 heb eu diwygio. |